
# Llwybr Pyg, Yr Wyddfa

**ANODD/LLAFURUS**




## Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 11km (6.8 milltir)
- Hyd: 6 awr
- Math o daith: Yno ac yn ôl

## ⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru

V-20231127/2121

1




Mae'r llwybr yn dechrau yng nghornel bellaf maes parcio Pen y Pass, i'r dde o fynedfa'r maes parcio. Ewch heibio'r man glanio hofrennydd ar eic dde, a thrwy fwlch cul mewn wal gerrig. (Llwybr y Mwynwyr yw'r llwybr amlwg sy'n dechrau gyferbyn â'r fynedfa i'r maes parcio).

2




Mae rhan gyntaf Llwybr Pyg yn dringo'n eithaf serth dros dir creigiog a garw. Er mwyn osgoi anaf i'ch ffêr, dewiswch eich camau'n ofalus, yn enwedig ar y ffordd i lawr.

3



Ymhen rhyw awr o gerdded fe gyrhaeddwch Bwlch y Moch.

4



Wrth gyrraedd Bwlch y Moch, fe welwch Lyn Llydaw yn dod i'r golwg islaw. Mae llethrau'r Lliwedd yn codi ar yr ochr draw i'r llyn. Mae'r llwybr yn fforchio yn y fan hon, gyda'r llwybr i'r dde yn mynd i fyny Crib Goch. I fynd am yr Wyddfa, cadwch i'r chwith a thros y camfeydd cyfochrog.

5




O Fwlch y Moch bydd y llwybr yn dringo'n raddol at fan cwrdd Llwybr Pyg a Llwybr y Mwynwyr uwchben Llyn Glaslyn.

6



Mae'r fan lle mae Llwybr Pyg a Llwybr y Mwynwyr yn cwrdd wedi'i nodi â maen hir – cofiwch amdani ar eich ffordd i lawr. O hyn ymlaen, mae'r llwybr yn dringo'n serth nes y cyrhaeddwch Fwlch Glas.

7



Ymhen ychydig, bydd y llwybr yn dringo'n igam-ogam i fyny i Fwlch Glas.

8



Ym Mwlch Glas, fe fyddwch yn ymuno â Llwybr Llanberis a Llwybr Cwellyn. Mae'r gyffordd hon wedi ei nodi â maen hir - cofiwch amdani ar eich ffordd i lawr.

9



Dilynwch y llwybr i'r chwith o'r maen hir. Rydych yn awr ar y rhan olaf o'ch taith i gopa'r Wyddfa. Wrth gerdded ar gyflymder hamddenol, gallwch ddisgwyl bod ar y copa ymhen rhyw chwarter awr.

10



O'r copa ar ddiwrnod clir, cewch eich gwobrwyo â golygfeydd anhygoel - mae'n bosib gweld 18 o lynnoedd ac 14 copa dros 914m (3000 troedfedd). Weithiau, gallwch hyd yn oed weld mor bell â'r Iwerddon, Ynys Manaw ac Ardal y Llynnoedd.